# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Mai 2022

Amser: 09.12 - 12.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12925

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Alun Davies AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Bonnie Williams, Housing Justice Cymru<br>Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>Debra Carter, Llywodraeth Cymru<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Huw Maguire, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2. Cafwyd datganiad o fuddiant perthnasol gan Mabon ap Gwynfor AS.

## 2 Cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin – Briff gan Cyfiawnder Tai Cymru

2.1. Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Bonnie Williams, Cyfarwyddwr Cyfiawnder Tai Cymru.

2.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Bonnie Williams, Cyfarwyddwr Cyfiawnder Tai Cymru, i ddarparu nodyn ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i athrawon, staff a disgyblion i groesawu ffoaduriaid i'w hysgolion a'u derbyn.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitemau a ganlyn: 4, 5 ac 8

3.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Trafod y papur briffio ar gartrefi i ffoaduriaid o Wcráin

4.1. Trafododd y Pwyllgor y papur briffio a'r sesiwn friffio a gafwyd, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y materion a godwyd.

## 5 Trafod yr ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â digartrefedd

5.1. Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid, a thrafododd y camau nesaf o ran ei waith.

## 6 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 9 – y Gweinidog Newid Hinsawdd

6.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Neil Hemington, Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru

Huw Maguire, Pennaeth y Polisi Ail Gartrefi, Llywodraeth Cymru

6.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i ddarparu'r eitemau a ganlyn:

- Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â newid y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.
- Nodyn yn nodi'r amserlenni ar gyfer polisïau a amlinellodd y Gweinidog, gan gynnwys papurau gwyn i newid deddfwriaeth digartrefedd; helpu awdurdodau lleol i nodi cartrefi gwag; newid y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd; llety gwyliau mewn perthynas ag ardrethi busnes; adeiladu tai fforddiadwy sy'n parhau i fod yn fforddiadwy.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ymwneud â chynlluniau peilot etholiadol yn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022

7.1.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ymwneud â chynlluniau peilot etholiadol yn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022.

### 7.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â'i ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl

7.2.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â'i ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl.

## 7.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ymwneud â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymgysylltu

7.3.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ymwneud â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymgysylltu.

## 7.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â'i waith craffu blynyddol mewn perthynas ag adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

7.4.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â'i waith craffu blynyddol mewn perthynas ag adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 7.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd yn ymwneud â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

7.5.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd yn ymwneud â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir).

## 7.6 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Etholiadau

7.6.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Etholiadau.

## 7.7 Llythyr gan Jane Dodds AS yn ymwneud â diogelwch adeiladau

7.7.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Jane Dodds AS yn ymwneud â diogelwch adeiladau.

### 7.8 Tystiolaeth ychwanegol gan Gynghrair Twristiaeth Cymru, UKHospitality Cymru a PASC UK (cangen Cymru) mewn perthynas â'r ymchwiliad i ail gartrefi

7.8.a. Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol a gafwyd gan Gynghrair Twristiaeth Cymru, UKHospitality Cymru a PASC UK (cangen Cymru) mewn perthynas â'r ymchwiliad i ail gartrefi.

### 7.9 Tystiolaeth ychwanegol gan Gymdeithas yr Iaith mewn perthynas â'r ymchwiliad i ail gartrefi

7.9.a. Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol a gafwyd gan Gymdeithas yr Iaith mewn perthynas â'r ymchwiliad i ail gartrefi

### 7.10 Tystiolaeth ychwanegol gan Dyfodol i'r Iaith mewn perthynas â'r ymchwiliad i ail gartrefi

7.10.a. Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol a gafwyd gan Dyfodol i'r Iaith mewn perthynas â'r ymchwiliad i ail gartrefi.

### 7.11 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â diogelwch adeiladau

7.11.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â diogelwch adeiladau.

## 8 Ymchwiliad i ail gartrefi – trafod yr adroddiad drafft

8.1. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, gan drafod nifer o newidiadau i'w gwneud.